

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Archwiliadau safle)

24 Awst 2015

Yn bresennol: Mr A Archer, Cynghorydd P Harries, Cynghorydd S Hudson, Cynghorydd M James, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd D Rees.

[Dim ond yn yr archwiliad yng Nghoedwynog roedd Mrs G Hayward (Cadeirydd) yn bresennol]

[Dim ond yn yr archwiliad yn Feidr Eglwys roedd Mr D Ellis yn bresennol]

(Archwiliad Safle: Coedwynog 10.45 a.m. – 11.45 a.m.
Feidr Eglwys 12pm – 12.50pm)

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Mrs M Thomas, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

2. NP/15/0315 – Gosod treuliwr anaerobig 500kw mewn cysylltiad â'r goruchwylion fferm presennol – Coedwynog, Felindre Farchog

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe'u hatgoffodd mai pwrpas yr ymweliadau'r diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i gyfarwyddo â safleoedd y ceisiadau a'r ardal oddi amgylch a dim mwy. Ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud nes y byddai'r ceisiadau cynllunio'n cael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Aed â'r Aelodau am dro o amgylch clos y fferm cyn cerdded at y safle lle fyddai'r treuliwr anaerobig wedi'i leoli. Esboniodd yr asiant fod y lleoliad wedi'i ddewis i ddarparu ychwanegiad rhesymegol i glos y fferm ac i alluogi mewnbynnau i'r treuliwr gael eu cludo'n hawdd. Roedd y safle wedi'i guddio'n dda ac am y byddai wedi'i geibio i mewn i'r bancyn i'r un dyfnder â'r clos, ni fyddai'n benodol o weledol. Holodd yr Aelodau ynghylch y defnydd o'r deunydd fyddai'n cael ei geibio ac atebodd yr asiant y byddai'r pridd wyneb yn cael ei wasgaru ar dir ar draws y fferm tra byddai'r deunydd caled yn cael ei ddefnyddio i atgyweirio bylchau a feidrioedd oddi fewn i'r safle. Byddai gweddill y deunydd yn cael ei ddefnyddio i ffurfio byndiau pridd.

Holodd Aelod arall ynghylch sŵn a drewdod yn codi o'r peiriant am fod y pryderon hyn wedi'u codi gan breswylwyr lleol. Atebodd yr asiant y byddai cyfuniad pŵer a gwres y peiriant oddi fewn i uned wedi'i ynysu'n



acwstig a byddai ganddo lefel sŵn o oddeutu 75db o fewn metr i'r peiriant; o gofio bod hon yn fferm weithredol credai na fyddai'r sŵn damed yn fwy, ac yn ôl pob tebyg, yn llai, na'r hyn a geir gan weithrediadau presennol y gwaith ar y fferm. O ran y drawdod fe ddylai hwn hefyd lleihau am fod y broses o dreulio anaerobig yn malu'r gwastraff mewn amgylchedd penodol a'r nwyon yn cael eu defnyddio fel tanwydd yn hytrach na'u rhyddhau i'r awyr. Rhagwelid y byddai tua £12,000 fesul blwyddyn yn cael ei arbed o ran defnydd ynni ar y fferm.

Er mwyn i'r Aelodau ddeall y newidiadau fyddai'n digwydd ar y fferm pe bai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, gofynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfeiriad y Parc i'r ymgeisydd amlinellu'r modd roedd slyri'n cael ei drin ar y fferm ar hyn o bryd a sut y byddai hynny'n newid. Esboniodd yr ymgeisydd fod gan y fferm ar hyn o bryd gyflenwad chwe wythnos o slyri yn y lagŵn agosaf at y llaethdy ac roedd hwnnw wedyn yn cael ei bwmpio i lagŵn mwy o faint a phan fyddai amodau'n caniatáu yn cael ei wasgaru ar hyd y perci. Roedd yn bosib mynd ar hyd y rhan fwyaf o'r tir heb fod angen i dractorau deithio ar hyd y ffyrdd. Pe rhoddid caniatâd i'r treuliwr y brif fantais fyddai mwy o hyblygrwydd ynghylch pryd y gallai'r deunydd treuliedig gael ei wasgaru, ac absenoldeb drawdod pan fyddai hynny'n digwydd.

Cerddodd yr Aelodau i ben uchaf y safle wedyn ac at y ffin gyda'r cymydog agosaf. Roedd brasamcan o uchder a phellter y tanciau wedi'i farcio ar y tir a nodwyd y byddai golygfa pellter agosaf o ardd yr eiddo hwnnw yn newid, ond doedd gan yr annedd ddim ffenestri'n edrych i'r cyfeiriad hwn.

3. NP/15/0194 – Datblygiad preswyl o 35 o anheddau (yn cynnwys 14 o unedau fforddiadwy) yn cynnwys llecyn agored a mannau mynediad newydd o Feidr Eglwys a Feidr Bentinck – tir oddi ar Feidr Eglwys, Trefdraeth

Doedd Cadeirydd y Pwyllgor ddim yn bresennol yn yr archwiliad safle hwn am ei bod eisoes wedi datgan buddiant yn y cais; cymrodd y Dirprwy Gadeirydd at y Gadair felly. Arweiniwyd yr Aelodau i'r safle ar hyd clwyd i gerddwyr ar Stryd yr Afr a fyddai'n cael ei chadw at ddefnydd yr holl breswylwyr. Esboniodd yr Asiant y byddai'r llecyn bywyd gwyllt gyferbyn â'r fynedfa hon, ynghyd â'r cloddiau o fewn y safle, yn cael eu cadw a'u cynnal gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru a oedd eisoes yn ymwneud â nifer o safleoedd cadwraeth natur gan gynnwys y fynwent. Byddai'r mwyafrif o'r cloddiau oddi fewn i'r safle'n cael eu cadw a nodwyd union leoliadau'r mynedfeydd newydd i gerbydau a cherddwyr. Nododd yr Aelodau hefyd pa mor agos oedd yr eglwys a'r fynwent.

Wrth i'r Aelodau symud i fyny ar hyd y safle esboniodd yr Asiant y byddai'r datblygiad yn cynnwys cymysgedd o unedau un, dau, tri a phedwar gwely. Wrth droi at yr elfen tai fforddiadwy, esboniodd yr asiant y byddai'r



rhain wedi'u lleoli mewn rhan hunangynhaliol o'r safle gyda mynediad ar wahân i Feidr Eglwys. Rhagwelai y byddai hyn yn cael ei symud yn ei flaen gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig o fewn chwech i 18 mis o roi caniatâd; ni fyddai rhaid iddo aros i dai'r farchnad gael eu datblygu. Ychwanegodd y gallai tai'r farchnad eu hunain gael eu datblygu mewn camau unwaith y byddai'r brif ffordd wedi'i thorri am fod y safle'n naturiol wedi'i rannu'n ddarnau llai. Roedd un Aelod yn amau'r model roedd yr angen am dai wedi'i seilio. Atebodd y swyddogion ei fod wedi'i seilio ar gofrestr tai ym meddiant Cyngor Sir Penfro a bod yr angen am lawer o unedau un gwely wedi'i hen gydnabod oherwydd y newidiadau demograffig yn y boblogaeth.

I orffen cerddodd yr Aelodau o amgylch ffyrdd amgylchol y safle a lleoliadau'r manau mynediad newydd a chyfeiriwyd at y gwelliant ffordd arfaethedig ar gyffordd Teras y Brenin.

